OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 1827 (Cy.203)

# TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS I DEITHWYR, CYMRU

## Rheoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaeth Bysiau (Cymru) (Diwygio) 2004

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *14 Gorffennaf 2004* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Gorffennaf 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 154(5) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaeth Bysiau (Cymru) (Diwygio) 2004 a deuant i rym ar 31Gorffennaf 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

### Diwygio'r prif Reoliadau

**2.** Diwygir Rheoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaeth Bysiau (Cymru) 2002(**2**) ("y prif Reoliadau") fel a ddarperir yn rheoliadau 3 a 4.

### Diwygio'r darpariaethau dehongli

**3.** Yn rheoliad 2 o'r prif Reoliadau, yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor, rhodder—

"ystyr "man aros gosodedig" ("*fixed stopping place*") yw man aros mewn lleoliad gosodedig; a

ystyr "gwasanaeth hyblyg" ("*flexible service*") yw gwasanaeth:

(i) sy'n gwasanaethu un neu fwy o gymunedau neu gymdogaethau lleol o fewn ardal ddaearyddol benodedig,

(ii) sydd, er bod iddo rannau gosodedig ar y llwybr teithio, yng nghyfanrwydd ei weithredu mor hyblyg fel nad yw'n ymarferol i ddynodi ymlaen llaw pob ffordd a dramwyir ar unrhyw adeg benodedig,

(**1**) 2000 p. 38.

(**2**) O.S. 2002/2022 (Cy.206), a ddiwygiwyd gan O.S. 2003/943 (Cy.124).

(iii) a ddarperir yn bennaf at ddibenion cario teithwyr sydd wedi archebu ar gyfer y daith ymlaen llaw ac y mae eu hanghenion cyfunol yn penderfynu llwybr pob taith er y gall fod pobl eraill hefyd yn teithio,

(iv) y mae pob sedd ar ei gyfer ar gael i'w defnyddio gan aelodau o'r cyhoedd, a

(v) a ddarperir am gydnabyddiaeth a delir gan deithwyr unigol am deithio ac nad yw'r prisiau hynny'n ddarostyngedig i amrywiad yn ôl nifer y teithwyr sy'n cael eu cario ar y daith.”.

**Diwygio'r amodau ar gyfer talu'r grant**

**4.**—(1) Diwygir rheoliad 3 o'r prif Reoliadau (cymhwyster i gael grant) fel a ganlyn—

(2) Ym mharagraff (1)(b), hepgorer y geiriau o “ac sy'n defnyddio cerbyd” i “yn unol ag amserlen) ac”.

(3) Yn lle paragraff (2)(b) rhodder y canlynol —

“(b) bod y trefniadau aros yn gweithredu fel a ganlyn—

(i) lleolir yr holl fannau aros gosodedig (os ydynt wedi'u marcio neu'n cael eu cydnabod yn gyffredinol fel arall), heblaw'r rhai lle mae terfynfaoedd gwasanaeth, mewn lleoliad lle y mae'n debygol y defnyddir hwy yn rhesymol aml gan aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol, a

(ii) mewn unrhyw ran o ardal gweithredu'r gwasanaeth lle nad oes mannau aros gosodedig, mae'r trefniadau ar gyfer penderfynu pa le a pha bryd y gellir codi a gollwng teithwyr yn rhai y gall aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol fanteisio arnynt yn rhesymol aml;”.

(4) Yn lle paragraff (2)(c) rhodder—

“(c) bod yr aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol yn gallu gwneud taith unigol rhwng dau fan aros (i'r graddau y darperir ar gyfer y teithiau hynny yn y manylion cofrestredig gan gofio am gyfyngiadau esgyn a disgyn) wrth dalu pris tocyn nad yw'n fwriadol yn eu rhwystro rhag defnyddio'r gwasanaeth,

(ca) yn achos gwasanaeth hyblyg, bod y trefniadau archebu ymlaen llaw o'r math fel nad ydynt yn rhwystro aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol rhag gwneud taith unigol y darperir fel arall ar ei chyfer yn y manylion cofrestru;”.

(5) Ym mharagraff (2)(ch), yn lle “yr aelodau hynny” rhodder “aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol ”.

(6) Yn lle paragraff (3)(b) rhodder —

“(b) mae'r trefniadau aros yn gweithredu fel a ganlyn—

(i) lleolir yr holl fannau aros gosodedig (os ydynt wedi'u marcio neu'n cael eu cydnabod yn gyffredinol fel arall) mewn lleoliad lle y mae'n debygol y defnyddir hwy yn rhesymol aml gan aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol, a

(ii) mewn unrhyw ran o ardal gweithredu'r gwasanaeth lle nad oes mannau aros gosodedig, mae'r trefniadau ar gyfer penderfynu pa le a pha bryd y gellir codi a gollwng teithwyr yn rhai y gall aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol fanteisio arnynt yn rhesymol aml;”.

(7) Yn lle paragraff (3)(c) rhodder—

“(c) bod yr aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol yn gallu gwneud taith unigol rhwng dau fan aros (i'r graddau y darperir ar gyfer y teithiau hynny yn y manylion cofrestredig gan gofio am gyfyngiadau esgyn a disgyn) wrth dalu pris tocyn nad yw'n fwriadol yn eu rhwystro rhag defnyddio'r gwasanaeth,

(ca) yn achos gwasanaeth hyblyg, bod y trefniadau archebu ymlaen llaw o'r math fel nad ydynt yn rhwystro aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol rhag gwneud taith unigol y darperir fel arall ar ei chyfer yn y manylion cofrestru;".

(8) Ym mharagraff (3)(ch), yn lle "aelodau felly o'r cyhoedd" rhodder "aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*
14 Gorffennaf 2004 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaeth Bysiau (Cymru) 2002 drwy:

(a) gwneud darpariaeth ar gyfer talu grant i weithredwyr gwasanaethau bysiau hyblyg, y ceir cofrestru manylion amdanynt o dan Reoliadau Cerbydau'r Gwasanaeth Cyhoeddus (Cofrestru Gwasanaethau Lleol) 1986 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cerbydau'r Gwasanaeth Cyhoeddus (Cofrestru Gwasanaethau Lleol) (Diwygio) (Lloegr a Chymru) 2004, drwy gymryd i ystyriaeth y trefniadau aros gwahanol sy'n gymwys yn achos gwasanaethau o'r fath, a

(b) dileu y ddarpariaeth sy'n darparu bod rhannau o lwybr teithio bysiau sydd â chyfyngiadau ar esgyn a disgyn yn anghymwys ar gyfer grant ar y sail nad yw'r teithwyr yn gallu teithio rhwng parau penodol o fannau aros.